DATGANIAD YSTADEGOL

Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau Haf 2019 yng Nghymru:

TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2

Uchafbwyntiau, Cyfres Haf 2019

24 Mai 2019

Ffigur 1: Cofrestriadau TGAU yr Haf



Roedd **303,635** o gofrestriadau **TGAU** ar gyfer cyfres Haf 2019. Cynnydd o **4.5%** mewn cofrestriadau **TGAU**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach – Cymwysterau Cymru; 2017 – Ofqual

Ffigur 2: Cofrestriadau TGAU yr Haf yn ôl grŵp



Cynnydd o **4.4%** mewn cofrestriadau Blwyddyn 11

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach – Cymwysterau Cymru; 2017 – Ofqual

Ffigur 3: Cofrestriadau UG a Safon Uwch yr Haf

Gostyngiad o **8.0%** mewn cofrestriadau **UG**

Gostyngiad o **5.1%** mewn cofrestriadau **Safon Uwch**



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru;

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y cofrestriadau arholiadau dros dro yng Nghymru ar gyfer cyfres haf 2019. Mae'r datganiad yn cwmpasu cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, tystysgrifau Lefel 1/2 a'r Dystysgrif Her Sgiliau ar gyfer canolfannau yng Nghymru. Cyflwynwyd y data i ni gan gyrff dyfarnu erbyn 17 Ebrill cyn cyfres haf 2019.

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

Cynnwys

Cyflwyniad..... 2
Ystadegau..... 6
Rhestr termau..... 38
Nodiadau cefndir..... 40

Ystadegydd: Mark Hogan Cstat 01633 373 253 ystadegau@cymwysteraucymru.org

Ymholiadau gan y cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Ers haf 2018, rydym wedi casglu ac adrodd ar ddata ar gyfer Cymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cyn haf 2018, roedd data ar gyfer Cymru yn cael eu casglu a'u cyhoeddi gan Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr. Cafodd data yn y datganiad hwn mewn perthynas â haf 2017 eu casglu a'u cyhoeddi gan Ofqual.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrifau Lefel 1 a Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru ar gyfer cyfres arholiadau haf 2019. Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu erbyn 17 Ebrill 2019, gan adlewyrchu'r sefyllfa ar 16 Ebrill 2019. Gall y ffigurau cofrestriadau newid yn ddyddiol hyd at ddiwrnod yr arholiadau. Fel arfer, byddai myfyrwyr unigol wedi cofrestru ar gyfer mwy nag un cymhwyster ar draws pynciau.

DYLANWADAU ALLANOL

Mae nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar newidiadau yn nifer y cofrestriadau ar gyfer grwpiau blwyddyn dros amser, er enghraifft newidiadau i'r canlynol:

- maint y boblogaeth;
- ymddygiad cofrestru e.e. pryd y caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer eu harholiadau TGAU;
- nifer y cymwysterau o bob math a gaiff eu hastudio ar gyfartaledd;
- y mathau o gymwysterau ôl-16 a gaiff eu hastudio.

Yr ystadegau swyddogol diweddaraf sydd ar gael ar boblogaeth Cymru 16, 17 neu 18 oed yw'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn dangos cynnydd o 0.7% yn y boblogaeth o bobl ifanc 16 oed yn 2019 o gymharu â 2018 ond gostyngiad o 3.8% ar gyfer pobl ifanc 17 oed a gostyngiad o 2.1% ar gyfer pobl 18 oed. Gallai'r newidiadau hyn olygu dylanwad cynyddol o'r boblogaeth ar gofrestriadau TGAU a dylanwad tuag i lawr ar gofrestriadau UG a Safon Uwch. Mae'r cynnydd a ragwelir mewn plant 16 oed eleni yn dilyn gostyngiadau diweddar yn y grŵp oedran hwn.

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth

Blwyddyn	16 mlwydd oed	17 mlwydd oed	18 mlwydd oed
2019	33,002	32,939	34,685
2018	32,781	34,248	35,447
Newid (2019 - 2018)	221	-1,309	-762
Newid canrannol ((2019 - 2018) / 2018)	0.7%	-3.8%	-2.1%

Ffynhonnell: Llwyodraeth Cymru.

Gan fod y datganiad hwn yn seiliedig ar gyfrifiadau o gofrestriadau ar lefel cymhwyster, nid yw'n bosibl i ni fesur effaith ffactorau o'r fath. Rydym wedi gwneud sylwadau ar ffactorau sy'n dylanwadu ar newidiadau mewn cofrestriadau dim ond lle rydym yn hyderus y bydd y ffactorau hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â newid.

Diwygio cymwysterau

Yn dilyn adolygiad Llywodraeth Cymru o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed[1] yn 2012, cyflwynwyd cyfres newydd o gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru. Mae'r cymwysterau diwygiedig hyn wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cymwysterau diwygiedig i'w haddysgu gyntaf mewn tri cham. Addysgwyd cymwysterau Cam 1 o fis Medi 2015, cymwysterau Cam 2 o fis Medi 2016 a chymwysterau Cam 3 o fis Medi 2017. Ceir gwybodaeth am y newidiadau hyn, a rhestr o'r pynciau ym mhob cam ar ein gwefan[2].

I gyd-fynd â'r diwygiadau yng Nghymru, cafodd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd eu cyflwyno yn Lloegr hefyd. Mewn rhai pynciau lle ceir nifer isel o ymgeiswyr, mae cymwysterau wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr, ond nid Cymru. Mewn achosion o'r fath, gall y cymwysterau sydd wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr gael eu cynnig fel rhan o gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Gellir cymharu'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru a Lloegr o hyd – maent o'r un maint ac ar gael i'r un ystod o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau cynllunio allweddol rhyngddynt. Mae cymwysterau TGAU a

[1] Llywodraeth Cymru (2014) Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. [ar-lein]. Ar gael yn: https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf [Cyrchwyd 17 Mai 2018].

[2] http://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/diwygio-cymwysterau-cyffredinol/pa-bynciau-sydd-ar-gael/

ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn parhau i gael y graddau A*-G, ond mae'r cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr bellach yn destun system raddio 9-1. Mae canlyniadau cymwysterau UG a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn cyfrannu 40% tuag at radd Safon Uwch. Nid yw canlyniadau cymwysterau UG yn cyfrif mwyach tuag at y cymwysterau Safon Uwch newydd a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

Yn y datganiad hwn, mae'r termau "cymwysterau TGAU diwygiedig", "cymwysterau UG diwygiedig" a "cymwysterau Safon Uwch diwygiedig" yn cyfeirio at y cymwysterau newydd a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru, oni nodir fel arall.

Mewn pynciau lle mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u diwygio ar gyfer Cymru, nid yw cymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr ar gael i'w defnyddio yng Nghymru ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus. Mae dau brif senario lle y gallai dysgwyr yng Nghymru astudio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr:

- Mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gynigir mewn pynciau nad ydynt wedi'u diwygio'n benodol ar gyfer Cymru yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus.
- Lle nad yw'r ddarpariaeth wedi'i hariannu'n gyhoeddus, fel sy'n digwydd mewn ysgolion annibynnol, gall canolfannau ddewis cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr, er bod cymhwyster diwygiedig cyfatebol ar gyfer Cymru.

Mesurau perfformiad

Mae'n bosibl bod newidiadau diweddar i fesurau perfformiad yn dal i effeithio ar nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU yr haf hwn. O 2017, roedd uchafswm o ddau gymhwyster nad ydynt yn gymwysterau TGAU yn cyfrif tuag at fesurau sy'n seiliedig ar drothwyon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. At hynny, nid yw cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg yn cyfrif mwyach tuag at elfennau llythrennedd y trothwy lefel 2 cynwysedig na'r sgôr 9 pwynt wedi'i chapio.

Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid arall i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 gan olygu mai dim ond cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth sy'n cyfrif tuag at elfen Gwyddoniaeth y sgôr 9 pwynt wedi'i chapio. Yn flaenorol, caniatawyd i gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol gyfrif[3].

[3]Mae rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru i'w chael yn: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2017/12/06/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-deall-newidiadau-i-ddata-addysg/

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd newidiadau i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo mesurau perfformiad. O haf 2019, dim ond cofrestriad cyntaf disgybl ar gyfer arholiad TGAU fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol. Cyn hynny y radd orau a gyflawnwyd oedd yn cyfrif. Mae hyn yn golygu y gallai graddau a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ysgol 2017/18 gan ddisgyblion blwyddyn 10 neu iau gyfrif tuag at fesurau perfformiad.

Bydd newidiadau eraill yn cael eu gwneud i gyfrifo'r mesur perfformiad sydd wedi'i gapio 9 yn 2019. Mae nifer y slotiau neilltuedig ar gyfer TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth wedi gostwng o bump i dri ac felly bydd chwe slot heb eu neilltuo ar gyfer cymwysterau eraill sydd yn gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru. Yn y slot llythrennedd, bydd y graddau of gorau o'r cyntaf ’a enillwyd yn TGAU Iaith Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg neu Llenyddiaeth Gymraeg yn cyfrif. Yn y slot rhifedd, bydd y graddau of gorau o'r cyntaf ’a enillwyd yn y TGAU Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd yn cyfrif. Yn y slot gwyddoniaeth, y graddau ‘gorau o'r cyntaf’ yn y cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth fydd yn cyfrif, gyda'r radd uwch yn y cymwysterau dyfarniad dwbl yn cyfrif.

Bagloriaeth Cymru

Cafodd Bagloriaeth newydd ei chyflwyno i'w haddysgu yng Nghymru am y tro cyntaf o fis Medi 2015. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau i ysgolion a cholegau AB gynyddu'n raddol gyfran y myfyrwyr sy'n sefyll Bagloriaeth Cymru, gyda'r nod o sicrhau y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr yng Nghymru yn ei sefyll fel rhan o'u rhaglen astudio erbyn 2019/20. Caiff cofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau eu cynnwys yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

YSTADEGAU

COFRESTRIADAU TGAU

Ffigur 4: Cyfanswm y cofrestriadau TGAU yn ôl grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru;

- Roedd 303,635 o gofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2019, sef cynnydd o 4.5% o gymharu â'r cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2018.
- Blwyddyn 10 a Blwyddyn 13 ac uwch oedd y grwpiau blwyddyn â'r cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau TGAU yr haf hwn o gymharu â'r llynedd. Y prif reswm dros y cynnydd cyffredinol mewn cofrestriadau TGAU haf eleni oedd y cynnydd mewn cofrestriadau Blwyddyn 11.
- Mae'n debygol bod y cynnydd ym Mlwyddyn 11 o ganlyniad i'r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 y bydd graddau cyntaf a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ysgol 2017/18 gan ddisgyblion blwyddyn 10 neu iau yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion. Mae'r cynnydd hwn mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 yn dilyn gostyngiad mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 a welwyd yn 2018.
- Cofrestriadau Blwyddyn 11 oedd y rhan fwyaf o'r holl gofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2018, gydag 89.7% yn ddysgwyr Blwyddyn 11. Nid yw'r gyfran hon wedi newid ers yr haf diwethaf.
- Mae tri cham o gymwysterau TGAU diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu yr haf hwn. Roedd y cymwysterau diwygiedig hyn yn cyfrif am 290,440 (95.7%) o holl gofrestriadau haf 2019.

- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cyfrif am 4.9% o'r holl gofrestriadau TGAU yr haf hwn, sef yr un faint â'r haf diwethaf.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 12 neu uwch yn cyfrif am 5.4%, sef yr un faint â'r haf diwethaf.

CYMWYSTERAU TGAU DIWYGIEDIG

Bydd y tri cham o gymwysterau TGAU diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu yr haf hwn.

Roedd y cymwysterau diwygiedig hyn yn cyfrif am 290,440 (95.7%) o holl gofrestriadau TGAU haf 2019. Roedd gweddill cofrestriadau TGAU yr haf hwn am gymwysterau etifeddol (a all gynnwys ailsefyll arholiadau), pynciau nas diwygiwyd neu gymwysterau a ddiwygiwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr (gweler diwygio cymwysterau).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 1

Roedd cofrestriadau TGAU Cam 1 yn cyfrif am 44.0% o gyfanswm y cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2019. Dyfarnwyd y cymwysterau hyn am y tro cyntaf yn haf 2017.

Ffigur 5 : Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl grŵp blwyddyn



Gwelwyd cynnydd o 19.1% yng nghyfanswm y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 yng Nghymru o 112,060 o gofrestriadau yn haf 2018 i 133,500 o gofrestriadau yn haf 2019.

Gwelwyd cynnydd o 43.5% mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 yr haf hwn, o 8,590 o gofrestriadau yn haf 2018 i 12,325 o gofrestriadau yn haf 2019. Mae'r newid hwn yn cael ei yrru gan gynnydd o 4,165 (80.3%) mewn Llenyddiaeth Saesneg.

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru;

Tabl 2: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc

Cynyddodd cofrestriadau Blwyddyn 11 18.8% yr haf hwn o gymharu â haf 2018. Gallai hyn fod am nad oedd rhai myfyrwyr Blwyddyn 11 wedi cofrestru ar gyfer y cymwysterau hyn yn gynnar yn haf 2018 neu fis Tachwedd 2018.

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Cymraeg Iaith Gyntaf	5,220	4,865	7.3%
Llenyddiaeth Gymraeg	3,695	3,325	11.0%
Llenyddiaeth Saesneg	29,055	23,835	21.9%
Mathemateg	34,570	29,565	16.9%
Mathemateg: Rhifedd	24,695	23,000	7.4%
Saesneg	36,270	27,475	32.0%
Cyfanswm	**133,500**	**112,060**	**19.1%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn,Cymwysterau Cymru;

Gwelwyd cynnydd o 3.7% yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 12 o 6,245 yn haf 2018 i 6,480 o gofrestriadau o gymharu â haf 2019. Cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg a Mathemateg, y mae llawer ohonynt yn debygol o fod yn arholiadau sy'n cael eu hailsefyll, sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn. Cafodd dysgwyr y cyfle i ailsefyll y cymwysterau hyn ym mis Tachwedd 2018. Fodd bynnag, ar gyfer y pynciau

llinol hyn, rhaid i bob uned gael ei hailsefyll o fewn yr un gyfres ac, o'r herwydd, efallai fod mwy o ddysgwyr wedi aros tan yr haf i ailsefyll y cymhwyster. Gwelwyd cynnydd o 8.3% yn nifer y cofrestriadau ym Mlwyddyn 13 ac uwch hefyd yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf.

Cafwyd 5,220 o gofrestriadau ar gyfer Cymraeg: Iaith Gyntaf yr haf hwn, sef cynnydd o 7.3% o gymharu â haf 2018. Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm y cofrestriadau cam 1 ym mhob grŵp blwyddyn. Mae newidiadau i geisiadau Blwyddyn 11 yn debygol o fod o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth a newidiadau i fesurau perfformiad (gweler dylanwadau allanol).

Ceir dadansoddiad pellach ar gyfer Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yn y dadansoddiad o bynciau TGAU â mwy o gofrestriadau isod.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 2

Tabl 3: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Addysg Gorfforol	6,615	6,790	-2.6%
Almaeneg	570	755	-24.7%
Bioleg	7,360	7,065	4.2%
Celf a Dylunio	8,875	7,740	14.7%
Cemeg	7,250	6,825	6.3%
Cerddoriaeth	2,185	2,145	1.8%
Daearyddiaeth	7,290	7,320	-0.5%
Drama	2,240	2,300	-2.7%
Ffiseg	6,990	6,795	2.8%
Ffrangeg	3,025	3,525	-14.2%
Gwyddoniaeth Gymhwysol Dwyradd	2,830	3,505	-19.3%
Gwyddoniaeth Gymhwysol Unigol	855	510	67.5%
Gwyddoniaeth: Dwyradd	40,050	39,050	2.6%
Paratoi Bwyd a Maeth	2,120	1,960	8.3%
Sbaeneg	1,425	1,100	29.7%
Cyfanswm	**99,675**	**97,385**	**2.4%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn,Cymwysterau Cymru;

Dengys Tabl 3 nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 2 yng Nghymru yn haf 2019, sef yr ail dro y mae dysgwyr wedi cael y cyfle i ennill gradd yn y cymwysterau hyn. Cafwyd 99,675 o gofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn haf 2019, sef cynnydd o 2,290 (2.4%). Dysgwyr Blwyddyn 11 oedd yn cyfrif am y mwyafrif o'r cofrestriadau hyn (98.3%). Gallai'r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 (gweler mesurau perfformiad) fod wedi effeithio ar nifer y cofrestriadau ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

Roedd cofrestriadau i'r pwnciau wyddoniaeth (Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth (Dwyradd), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd)) yn 65,335 – sef i fyny 1,580 (2.5%) ers y llynedd. Roedd y cofrestriadau ieithoedd tramor modern yn 5,020 i lawr 360 (6.7%) ers y llynedd er y cynnydd o 29.7% ar gyfer Sbaeneg. Roedd cofrestriadau Celf a Dylunio 8,875 i fyny 14.7% ar y llynedd.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 3

Tabl 4: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc

Subject	2019	2018
Addysg Crefyddol	9,905	0
Addysg Crefyddol (cwrs byr)	6,010	515
Addysg Gorfforol (cwrs byr)	430	450
Astudiaethau'r Cyfryngau	1,365	0
Busnes	2,950	0
Cyfrifadura	1,950	0
Cymraeg Ail Iaith	19,670	0
Dylunio a Thechnoleg	5,460	0
Hanes	9,520	0
Cyfanswm	**57,260**	**965**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn,Cymwysterau Cymru

Roedd cofrestriadau i TGAU cam 3 cymeradwy yn cyfrif am 18.9% o'r holl ymgeiswyr TGAU eleni. Roedd Cymraeg Ail Iaith yn cyfrif am 34.4% o gofnod cam 3 gyda 19,670 o gofrestriadau ac o'r rhain roedd 98.2% yn ymgeiswyr Blwyddyn 11. Wrth gymharu cofrestriadau haf 2019 ar gyfer y cymhwyster Cymraeg Ail Iaith diwygiedig â chofnodion haf 2018 ar gyfer y cymhwyster Cymraeg Ail Iaith etifeddol, dengys bod y cofrestriadau wedi gostwng 6.7%. Ysgogwyd y gostyngiad hwn gan ostyngiad mewn cofrestriadau gan ymgeiswyr ym Mlwyddyn 9 neu is a Blwyddyn 10. Roedd Astudiaethau Crefyddol yn cyfrif am 17.3% o gofnodion cam 3 gyda 9,905 cofnod ac Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Byr) yn cyfrif am 10.5% o gofrestriadau gyda 6,010 o geisiadau.

CYFANSWM Y COFRESTRIADAU AR GYFER CYMWYSTERAU TGAU YR HAF YN ÔL PWNC

Tabl 5: Cyfanswm cofrestriadau TGAU yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc TGAU	2019	2018	Newid canrannol
Addysg Gorfforol	7,140	7,325	-2.6%
Almaeneg	575	825	-30.3%
Astudiaethau Busnes	3,010	3,730	-19.3%
Astudiaethau Crefyddol	16,055	20,940	-23.3%
Astudiaethau Dinasyddiaeth	85	35	135.1%
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	1,460	1,690	-13.8%
Bioleg	7,375	7,275	1.4%
Celfyddydau Perfformio / Mynegiannol	40	25	62.5%
Cemeg	7,275	7,030	3.5%
Cerddoriaeth	2,255	2,240	0.7%
Cyfrifiadura	1,965	1,885	4.1%
Cymraeg Ail Iaith	19,670	21,080	-6.7%
Cymraeg Iaith Gyntaf	5,220	4,865	7.3%
Daearyddiaeth	7,435	7,535	-1.3%
Drama	2,350	2,390	-1.6%
Dylunio a Thechnoleg	5,510	5,800	-4.9%
Economeg y Cartref	1,550	1,690	-8.2%
Economeg	95	80	16.0%
Ffiseg	7,000	6,995	0.1%
Ffrangeg	3,060	3,645	-16.0%
Gweithgynhyrchu	0	0	NA
Gwyddoniaeth Ychwanegol	0	0	NA
Gwyddoniaeth Ychwanegol (Pellach)	0	0	NA
Gwyddoniaeth	860	510	68.7%
Gwyddoniaeth: Dwyradd (a)	42,895	42,740	0.4%
Gwyddorau Eraill	365	330	11.3%
Hamdden a Thwristiaeth	0	265	-100.0%
Hanes	9,685	9,090	6.5%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,385	1,445	-4.0%
Ieithoedd Modern Eraill	600	680	-11.4%
Llenyddiaeth Gymraeg	3,695	3,325	11.0%
Lletygarwch	0	295	-100.0%
Mathemateg	34,755	29,970	16.0%
Mathemateg: Rhifedd	24,695	23,000	7.4%
Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	0	0	NA
Paratoi Bwyd a Maeth	2,135	1,975	8.3%
Peirianneg	0	190	-100.0%
Pob Pwnc arall	0	*	-100.0%
Pynciau Celf a Dylunio	9,045	7,905	14.4%
Pynciau Clasurol	90	160	-42.9%
Pynciau Gwyddorau Cymdeithasol	1,140	1,745	-34.5%
Saesneg Iaith	29,120	24,125	20.7%
Saesneg	36,405	27,890	30.5%
Sbaeneg	1,480	1,205	22.9%
Systemau Busnes a Chyfathrebu	0	135	-100.0%
Technoleg Arall	0	5	-100.0%
TGCh	5,875	6,370	-7.8%
Y Dyniaethau	0	0	NA
Ystadegau	275	195	40.3%
Cyfanswm	**303,635**	**290,640**	**4.5%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Mae tabl 5 yn cymharu cyfanswm y cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2019 a haf 2018 yn ôl pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau TGAU etifeddol, cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru a chymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr. Gwelwyd cynnydd mewn 22 o bynciau, arhosodd pum pwnc yr un peth a bu lleihad yn nifer y cofrestriadau mewn dau bwnc. Roedd y newidiadau'n amrywio o gynnydd o 8,515 ar gyfer Saesneg i leihad o 4,885 ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Yn 2019, cafwyd 42,895 o gofrestriadau ar gyfer Gwyddoniaeth: Dwyradd, gyda'r cofrestriadau'n cael eu cyfrif ddwywaith. Mae nifer y cofrestriadau ar gyfer Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn fwy yn 2019 nag oeddent yn 2018.

Ffigur 6: Cyfanswm cofrestriadau TGAU Haf 2019 wedi'u dadansoddi yn ôl pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

CYFANSWM Y COFRESTRIADAU AR GYFER PYNCIAU TGAU Â NIFER FWY O GOFRESTRIADAU YN ÔL GRŴP BLWYDDYN, HAF 2019

Fel y dangosir yn Ffigur 6, y pum pwnc TGAU â'r nifer fwyaf o gofrestriadau yn haf 2019 oedd Gwyddoniaeth: Dwyradd, Mathemateg, Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg a Mathemateg: Rhifedd. Trafodir y pynciau hyn yn fanylach isod.

Gwyddoniaeth: Dwyradd

Yr haf hwn caiff y cymwysterau Gwyddoniaeth: Dwyradd diwygiedig eu dyfarnu am yr ail dro. Mae cofrestriadau i gymwysterau Gwyddoniaeth: Dwyradd yn cael eu cyfrif fel dau yn y datganiad hwn. Mae hyn oherwydd bod maint y cymwysterau cymeradwy yn gyfwerth â dau TGAU. Mae'r dull hwn hefyd yn gyson â sut y bydd data mynediad ar gyfer y TGAU diwygiedig yn y grŵp pwnc 'Gwyddoniaeth: Dwyradd' 'yn cael ei adrodd mewn mannau eraill.

Ffigur 7: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Gwyddoniaeth: Dwyradd



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Tabl 6: TGAU Gwyddoniaeth: Dwyradd yn ôl grŵp blwyddyn

Gwyddoniaeth: Dwyradd	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2019	0	*	42,560	315	20	42,895
2018	0	10	42,510	220	5	42,740

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cafwyd 42,895 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth: Dwyradd yn haf 2019. Mae'r cymwysterau hyn yn disodli'r cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol etifeddol. Rhoddwyd y cyfle olaf i ailsefyll y cymwysterau hyn ym mis Ionawr 2018. Gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau ym mhob un o'r gwyddorau ar wahân yn haf 2019 o gymharu â haf 2018; Bioleg (1.4%), Cemeg (3.5%) a Ffiseg (0.1%) (gweler tabl 5).

TGAU Saesneg

Ffigur 8: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Saesneg



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Tabl 7: Cofrestriadau Saesneg Iaith yn ôl grŵp blwyddyn

Saesneg Iaith	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2019	10	270	29,320	2,980	3,830	36,405
2018	5	805	20,610	2,730	3,735	27,890
2017	10	21,090	31,115	2,945	3,885	59,045

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Roedd dyfarniad haf cyntaf (2017) TGAU Saesneg cymeradwy wedi cael mynediad mawr ym Mlwyddyn 10, llawer ohonynt heb ddychwelyd yn haf 2018. Roedd cyfres Tachwedd 2017 yn gyfres ailsefyll yn unig, gyda'r rhai a oedd wedi sefyll yr arholiad yn ystod haf 2017 yn unig i gystadlu ym mis Tachwedd. Roedd mynediad Blwyddyn 10 llawer llai yn haf 2018, sy'n debygol o ganlyniad i newidiadau i fesurau perfformiad sy'n golygu y bydd graddau cyntaf yn cyfrif.

- Cafwyd 36,405 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn haf 2019, sef cynnydd o 8,515 (30.5%).
- Mae'r cyhoeddiad ynghylch defnyddio graddau cyntaf i gyfrifo mesurau perfformiad (gweler mesurau perfformiad) yn debygol o fod wedi cyfrannu at newidiadau y nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cyfrif am 2.9% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yng nghyfres haf y llynedd, a dim ond 0.8% o'r cofrestriadau yn haf 2019.
- Mae cofrestriadau Blwyddyn 11 yn cyfrif am 80.5% o gyfanswm y cofrestriadau eleni o gymharu â 73.9% y llynedd.
- Mae cyfran y cofrestriadau gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 neu uwch hefyd yn is eleni – 18.7% o gofrestriadau o gymharu â 23.2% o gofrestriadau y llynedd.

TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Ffigur 9: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Llenyddiaeth Saesneg



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Tabl 8: Cofrestriadau Saesneg Iaith yn ôl grŵp blwyddyn

Llenyddiaeth Saesneg	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2019	*	9,355	19,630	120	10	29,120
2018	*	5,195	18,805	105	20	24,125
2017	*	2,055	14,640	75	10	16,780

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Haf 2018 oedd yr ail dro i'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg diwygiedig a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yng Nghymru gael ei ddyfarnu. Dim ond ar gyfer cyfres yr haf[4] y gellir cofrestru ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg a dim ond bryd hynny y gellir ei ddyfarnu, felly yr haf hwn yw'r trydydd cyfle i sefyll y cymhwyster TGAU diwygiedig.

- Cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg oedd 29,120 (cynnydd o 20.7% yn haf 2019 o gymharu â haf 2018).
- Gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau ym mhob grŵp blwyddyn yn haf 2019 o gymharu â haf 2018 heblaw blwyddyn 13.

[4] Cymhwyster unedol yw'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg diwygiedig, ac mae uned y gellir cofrestru ar ei chyfer yng nghyfres Ionawr

- Yn haf 2017, gwelwyd lleihad yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 11. Y rheswm dros hyn oedd bod cyfran sylweddol o'r cohort wedi cofrestru ar gyfer y cymhwyster etifeddol yn haf 2016, pan oeddent ym Mlwyddyn 10[5].
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 11 yn cyfrif am 67.4% o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg yn haf 2019, o gymharu â 78.0% yn haf 2018.
- Roedd cyfran y cofrestriadau Blwyddyn 12 neu uwch yn cyfrif am 0.4% yn haf 2019, sef gostyngiad bach o gymharu â 0.5% y llynedd.
- Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is a gafwyd yn haf 2019, gan gyfrif am 32.1% o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg eleni, o gymharu â 21.5% o'r cofrestriadau y llynedd.
- Gwelwyd y cynnydd mwyaf ar gyfer Blwyddyn 10, gyda chynnydd o 4,165 o gofrestriadau (80.2%).

[5] Dangosodd ffigurau Ofqual fod mwy o gofrestriadau Blwyddyn 10 ac is yn haf 2016 (7,570 o gofrestriadau). Cyfran y cofrestriadau Blwyddyn 10 ac is yn haf 2016 oedd tua 25% (Gweler Ofqual (2017) *Provisional entries for summer 2017 series for Wales*. [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/619382/Summer_2017_exam_entries_GCSEs_Level_1_2_AS_and_A_levels_Wales.xlsx [Cyrchwyd 17 Mai 2018].)

TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg: Rhifedd

TGAU Mathemateg a gafodd y nifer fwyaf ond dau o gofrestriadau TGAU dros dro yn haf 2019, gyda chyfanswm o 34,755 o gofrestriadau. Mathemateg: Rhifedd a gafodd y nifer uchaf ond pedwar o gofrestriadau dros dro, gyda 24,695 o gofrestriadau.

Ffigur 10: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Mathemateg



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Ffigur 11: TGAU Mathemateg: Rhifedd cymharu grwpiau blwyddyn rhifedd



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Ar gyfer haf 2019, roedd dysgwyr Blwyddyn 11 yn cyfrif am 79.2% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg ac 86.2% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg: Rhifedd. Mae hyn yn cymharu â 78.4% ac 85.1% yn haf 2018, yn y drefn honno.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cyfrif am 2.0% a 7.9% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg: Rhifedd yn haf 2019, yn y drefn honno. Mae hyn wedi newid o 2.1% a 7.7% yn haf 2018, yn y drefn honno.
- Roedd 18.8% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg o Flwyddyn 12 neu uwch, a 5.9% ar gyfer TGAU Mathemateg: Rhifedd. Mae hyn yn cymharu ag 19.5% a 7.2% yn haf 2018.

Tabl 9: Cofrestriadau TGAU Mathemateg a Mathemateg: Rhifedd yn ôl grŵp blwyddyn

Pwnc	Blwyddyn	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
Mathemateg							
	2019	25	690	27,530	2,750	3,765	34,755
	2018	10	610	23,495	2,770	3,085	29,970
	2017	20	10,415	25,940	2,240	3,610	42,230
Mathemateg – Rhifedd							
	2019	*	1,940	21,285	645	820	24,695
	2018	*	1,765	19,565	715	950	23,000
	2017	10	11,135	20,455	520	1,050	33,170

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Gwelwyd cynnydd o 16.0% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg yn haf 2018 o gymharu â haf 2018. Gwelwyd cynnydd llai, sef 7.4%, yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg: Rhifedd.
- Yn nifer y cofrestriadau TGAU Mathemateg Blwyddyn 11 y gwelwyd y cynnydd mwyaf yr haf hwn, sef cynnydd o 17.2%. Yn nifer y cofrestriadau TGAU Mathemateg: Rhifedd Blwyddyn 12 neu uwch y gwelwyd y lleihad mwyaf yr haf hwn, gyda 12.0% yn llai o gofrestriadau.
- Mae nifer fwy o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg ym Mlwyddyn 12 neu uwch o gymharu â Mathemateg: Rhifedd. Mae hyn wedi bod yn wir ers 2017.

COFRESTRIADAU UG

Ffigur 12: Cyfanswm y cofrestriadau UG yn ôl grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Cafwyd 41,415 o gofrestriadau UG ar gyfer haf 2019 yng Nghymru, 8.0% yn is o gymharu â haf 2018 (44,995 o gofrestriadau).
- Mae hyn yn dangos bod nifer y cofrestriadau UG yng Nghymru wedi bod yn lleihau ers haf 2015, gydag Ofqual yn nodi 57,030 o gofrestriadau yn haf 2015, a 52,260 o gofrestriadau yn haf 2016 yn ei Ddatganiad ar Gofrestriadau Arholiadau'r Haf y llynedd[6] a 48,965 o gofrestriadau wedi'u nodi yn 2017 yn ein datganiad diwethaf.
- Gwelwyd y nifer fwyaf o gofrestriadau ym Mlwyddyn 12, gyda 31,730 o gofrestriadau yn haf 2019 yn cyfrif am 76.6% o'r holl gofrestriadau.
- Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn yr haf hwn o gymharu â haf 2018.
- Mae nifer o ffactorau a all achosi newidiadau yn nifer y cofrestriadau (gweler dylanwadau allanol)

CYMWYSTERAU UG DIWYGIEDIG

[6] Ofqual (2017) *Summer 2017 exam entries: GCSEs, level 1 / 2 certificates, AS and A levels in England*. [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/summer-2017-exam-entries-gcses-level-1-2-certificates-as-and-a-levels-in-england

Roedd 39,890 (96.3%) o gyfanswm cofrestriadau haf 2019 ar gyfer cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru. Dim ond cymwysterau a ddarperir gan CBAC yw'r rhain. CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau UG diwygiedig a gynlluniwyd i'w defnyddio yng Nghymru. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG a ddiwygiwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr ac a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler diwygio cymwysterau).

Byddai gweddill cofrestriadau haf 2019 yn gofrestriadau ar gyfer cymwysterau etifeddol a chymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 1

Caiff cymwysterau UG diwygiedig Cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am y pedwerydd tro yr haf hwn, ac maent yn cyfrif am 60.1% o gyfanswm y cofrestriadau Safon UG ar gyfer haf 2019.

Gwelwyd gostyngiad o 3.4% yng nghyfanswm y cofrestriadau UG diwygiedig cam 1 yng Nghymru o 25,765 o gofrestriadau yn haf 2018 i 24,895 o gofrestriadau yn haf 2019.

Tabl 10: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Astudiaethau Busnes	1,835	1,795	2.10%
Bioleg	3,645	3,600	1.20%
Cemeg	3,195	3,190	0.20%
Cyfrifiadura	645	610	6.10%
Cymdeithaseg	1,920	1,980	-3.00%
Cymraeg Iaith Gyntaf	260	280	-7.10%
Economeg	630	745	-15.50%
Ffiseg	2,325	2,250	3.40%
Hanes	2,550	2,760	-7.60%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	865	915	-5.00%
Llenyddiaeth Saesneg	1,690	2,065	-18.20%
Pynciau Celf a Dylunio	2,085	2,440	-14.50%
Saesneg Iaith	355	415	-13.80%
Seicoleg	2,885	2,715	6.20%
Cyfanswm	**24,895**	**25,765**	**-3.4%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Seicoleg (6.2%).
- Gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg (18.2%).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 2

Yr haf hwn yw'r trydydd tro i gymwysterau UG diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru gael eu dyfarnu, ac mae'r cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn cyfrif am 14.1% o gyfanswm y cofrestriadau Safon UG ar gyfer haf 2019.

Tabl 11: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2019 a haf 2018

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Addysg Gorfforol	835	900	-7.00%
Almaeneg	85	100	-13.30%
Astudiaethau Crefyddol	1,495	1,815	-17.80%
Cerddoriaeth	390	405	-3.70%
Cymraeg Ail Iaith	350	490	-28.30%
Daearyddiaeth	1,560	1,750	-11.00%
Drama	575	615	-6.40%
Ffrangeg	380	445	-14.30%
Sbaeneg	185	220	-15.60%
Cyfanswm	**5,855**	**6,735**	**-13.1%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Gwelwyd gostyngiad o 13.1% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG diwygiedig cam 2 o 6,735 o gofrestriadau yn haf 2018 i 5,855 o gofrestriadau yn haf 2019.
- Gwelwyd lleihad yn nifer y cofrestriadau UG ar gyfer yr holl gymwysterau diwygiedig hyn.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 3

Caiff cymwysterau UG diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am yr ail dro yr haf hwn. Roedd y cymwysterau hyn yn cyfrif am 22.1% o gyfanswm y cofrestriadau UG ar gyfer haf 2019.

Tabl 12: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2019 a haf 2018[7]

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Astudiaethau Gwleidyddol	415	490	-15.50%
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	950	1,025	-7.30%
Dylunio a Thechnoleg	775	770	0.60%
Mathemateg	4,640	3,770	23.00%
Mathemateg (Pellach)	460	325	42.60%
TGCh (d)	875	855	2.30%
Y Gyfraith	1,025	925	10.80%
Cyfanswm	**9,140**	**8,160**	**12.0%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Gwelwyd cynnydd o 12.0% yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG diwygiedig cam 3 o 8,160 o gofrestriadau yn haf 2018 i 9,140 o gofrestriadau yn haf 2019.
- Roedd newidiadau ar lefel pwnc yn amrywio o ostyngiad o 15.5% ar gyfer Astudiaethau Gwleidyddol i gynnydd o 42.6% ar gyfer Mathemateg (Pellach).
- Mae Mathemateg yn ffurfio 50.8% o gofrestriadau dau (i fyny o 46.2% yr haf diwethaf).

[7] Mae TGCh wedi cael ei gynnwys fel cymhwyster diwygiedig yn y datganiad hwn yn unol â dosbarthiad JCQ

Tabl 13: Cyfanswm y cofrestriadau UG yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc UG	2019	2018	Newid canrannol
Addysg Gorfforol	835	910	-7.8%
Almaeneg	85	100	-15.0%
Astudiaethau Busnes	1,835	1,820	0.7%
Astudiaethau Crefyddol	1,500	1,840	-18.6%
Astudiaethau Gwleidyddol	425	570	-24.8%
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	1,090	1,265	-14.1%
Bioleg	3,655	3,665	-0.4%
Celfyddydau Perfformio / Mynegiannol	0	*	-100.0%
Cemeg	3,200	3,285	-2.6%
Cerddoriaeth	415	470	-11.7%
Cyfrifiadura	650	620	4.2%
Cymdeithaseg	1,920	1,980	-2.9%
Cymraeg Ail Iaith	350	490	-28.4%
Cymraeg Iaith Gyntaf	260	280	-7.1%
Daearyddiaeth	1,570	1,780	-11.6%
Drama	575	620	-7.0%
Dylunio a Thechnoleg	775	905	-14.4%
Economeg	635	805	-21.3%
Ffiseg	2,340	2,355	-0.8%
Ffrangeg	385	455	-16.0%
Gwyddorau Eraill	175	275	-35.2%
Hanes	2,565	2,790	-8.0%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	865	915	-5.0%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	765	790	-3.2%
Ieithoedd Modern Eraill	110	210	-46.6%
Mathemateg (Pellach)	470	605	-22.5%
Mathemateg	4,730	4,815	-1.7%
Pob Pwnc arall	60	165	-65.3%
Pynciau Celf a Dylunio	2,090	2,480	-15.8%
Pynciau Clasurol	55	120	-55.4%
Saesneg Llenyddiaeth	1,695	2,090	-18.8%
Saesneg	360	430	-16.6%
Sbaeneg	185	225	-17.6%
Seicoleg	2,885	2,730	5.6%
Teithio a Thwristiaeth	*	10	-88.9%
TGCh	880	1,100	-19.9%
Y Gyfraith	1,025	1,030	-0.6%
Cyfanswm	**41,415**	**44,995**	**-8.0%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Mae tabl 13 yn cymharu cyfanswm y cofrestriadau UG ar gyfer haf 2019 a haf 2018 yn ôl pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau UG etifeddol, cymwysterau UG diwygiedig ar gyfer Cymru a chymwysterau UG diwygiedig ar gyfer Lloegr. Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau UG ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau yr haf hwn o gymharu â'r llynedd. Gwelwyd cynnydd mewn nifer fach o bynciau. Gwelwyd y cynnydd canrannol uchaf mewn cofrestriadau o gymharu â'r llynedd ar gyfer UG Seicoleg, sef 5.6%.

COFRESTRIADAU SAFON UWCH

Ffigur 13: Cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch yn ôl grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Cafwyd 31,925 o gofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2019, 5.1% yn is nag ar gyfer haf 2018 (33,640 o gofrestriadau).
- Mae hyn yn dangos bod nifer y cofrestriadau Safon Uwch yng Nghymru wedi bod yn lleihau ers haf 2015, gydag Ofqual yn nodi 38,480 o gofrestriadau yn haf 2015, a 37,640 o gofrestriadau yn haf 2016 yn ei Ddatganiad ar Gofrestriadau Arholiadau'r Haf y llynedd[8] a 35,255 o gofrestriadau wedi'u nodi yn 2017 yn ein datganiad diwethaf.
- Gwelwyd gostyngiad o 4.0% mewn cofrestriadau Blwyddyn 13 yn haf 2019 (27,670 o gofrestriadau) o gymharu â haf 2018 (28,810 o gofrestriadau).
- Gwelwyd gostyngiad ar gyfer pob grŵp blwyddyn o gymharu â haf 2018.

[8] Ofqual (2017) *Summer 2017 exam entries: GCSEs, level 1 / 2 certificates, AS and A levels in England*. [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/summer-2017-exam-entries-gcses-level-1-2-certificates-as-and-a-levels-in-england

- Mae nifer o ffactorau a all achosi'r newidiadau'r hyn mewn cofrestriadau (gweler dylanwadau allanol). Bydd hyn yn cynnwys gostyngiad mewn cofrestriadau UG o 8.1% rhwng haf 2017 a haf 2018.

COFRESTRIADAU AR GYFER CYMWYSTERAU SAFON UWCH DIWYGIEDIG

Roedd 28,595 (89.6%) o gyfanswm cofrestriadau haf 2019 ar gyfer cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru. Dim ond cymwysterau a ddarperir gan CBAC yw'r rhain. CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau Safon Uwch diwygiedig a gynlluniwyd i'w defnyddio yng Nghymru. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a ddiwygiwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr ac a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler diwygio cymwysterau). Bydd gweddill y cofrestriadau ar gyfer haf 2019 yn gofrestriadau ar gyfer cymwysterau etifeddol a chymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr. Mae tri cham o gymwysterau Safon Uwch diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu yr haf hwn.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 1

Caiff cymwysterau Safon Uwch diwygiedig Cam 1 eu dyfarnu am y trydydd tro yng Nghymru yr haf hwn. Mae'r cofrestriadau ar gyfer y pynciau hyn yn cyfrif am 56.3% o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2019.

Tabl 14: Cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Astudiaethau Busnes	1,180	1,245	-5.40%
Bioleg	2,480	2,365	4.80%
Cemeg	2,155	1,965	9.60%
Cyfrifiadura	335	335	0.90%
Cymdeithaseg	1,250	1,340	-6.60%
Cymraeg Iaith Gyntaf	280	255	9.90%
Economeg	460	440	4.30%
Ffiseg	1,495	1,345	11.10%
Hanes	2,225	2,370	-6.10%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	635	705	-9.40%
Llenyddiaeth Saesneg	1,610	1,605	0.30%
Pynciau Celf a Dylunio	1,780	1,900	-6.30%
Saesneg Iaith	280	240	17.00%
Seicoleg	1,800	1,565	15.00%
Cyfanswm	**17,975**	**17,680**	**1.7%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Gwelwyd cynnydd o 1.7% yn nifer y cofrestriadau Safon Uwch, o 17,680 yr haf diwethaf i 17,975 yr haf hwn.
- Gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith (17.0%).
- Gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (9.4%).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 2

Caiff cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am yr ail dro yr haf hwn. Roedd y rhain yn cyfrif am 14.6% o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2019.

Tabl 15: Cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Addysg Gorfforol	625	585	6.10%
Almaeneg	65	55	12.50%
Astudiaethau Crefyddol	1,245	1,325	-6.20%
Cerddoriaeth	305	325	-5.90%
Cymraeg Ail Iaith	250	275	-9.80%
Daearyddiaeth	1,265	1,250	1.30%
Drama	495	615	-19.50%
Ffrangeg	285	305	-6.60%
Sbaeneg	140	135	6.80%
Cyfanswm	**4,670**	**4,870**	**-4.1%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Gwelwyd gostyngiad o 4.1% yn nifer y cofrestriadau Safon Uwch, o 4,870 yr haf diwethaf i 4,670 yr haf hwn.
- Gostyngodd cofrestriadau Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) o 5 (0.8%)
- Gwelodd y Gymraeg Ail Iaith ostyngiad o 9.8%.
- Gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Drama (19.5%).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 3

Caiff cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019, ac eithrio Mathemateg a gafodd ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018 am blwyddyn 12. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall dysgwyr sefyll cymwysterau UG a Safon Uwch Mathemateg yn eu blwyddyn astudio gyntaf (2018) cyn symud ymlaen i astudio cymwysterau UG a Safon Uwch Mathemateg Pellach yn eu hail flwyddyn (2019).

Tabl 16: Cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc Safon Uwch	2019	2018
Astudiaethau Gwleidyddol	340	0
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	780	0
Dylunio a Thechnoleg	590	0
Mathemateg	3,180	135
Mathemateg (Pellach)	460	0
TGCh	480	0
Y Gyfraith	600	0
Cyfanswm y Cofrestriadau Cam 3	**6,430**	**135**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Dengys tabl 16 y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru rhwng haf 2019 a haf 2018.

- Roedd Mathemateg yn cyfrif am 53.5% o'r cofrestriadau.

Tabl 17: Cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch yn ôl pwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018

Pwnc	2019	2018	Newid canrannol
Pynciau Celf a Dylunio	1,855	1,980	-6.3%
Bioleg	2,570	2,565	0.3%
Astudiaethau Busnes	1,215	1,305	-7.0%
Cemeg	2,235	2,135	4.6%
Pynciau Clasurol	65	85	-25.3%
Astudiaethau Cyfathrebu	0	0	NA
Cyfrifiadura	380	360	5.6%
Meddwl yn Feirniadol	0	0	NA
Dylunio a Thechnoleg	620	680	-9.0%
Drama	515	635	-19.1%
Economeg	490	495	-1.0%
Peirianneg	0	0	NA
Saesneg	285	285	0.0%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	640	705	-9.5%
Saesneg Llenyddiaeth	1,665	1,685	-1.0%
Ffrangeg	300	340	-11.8%
Astudiaethau Cyffredinol	0	0	NA
Daearyddiaeth	1,325	1,355	-2.1%
Almaeneg	65	70	-5.7%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	605	605	-0.3%
Hanes	2,255	2,465	-8.4%
TGCh	660	800	-17.8%
Y Gyfraith	615	645	-5.1%
Hammden	0	0	NA
Mathemateg	3,625	3,950	-8.3%
Mathemateg (Pellach)	550	610	-9.4%
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	930	1,060	-12.4%
Cerddoriaeth	365	385	-5.2%
Celfyddydau Perfformio / Mynegiannol	20	15	11.8%
Addysg Gorfforol	640	625	2.6%
Ffiseg	1,525	1,545	-1.3%
Astudiaethau Gwleidyddol	365	415	-12.1%
Seicoleg	1,815	1,600	13.2%
Astudiaethau Crefyddol	1,275	1,380	-7.4%
Gwyddoniaeth	0	0	NA
Cymdeithaseg	1,270	1,365	-6.8%
Sbaeneg	155	160	-1.9%
Teithio a Thwristiaeth	5	130	-94.6%
Cymraeg Iaith Gyntaf	280	255	9.9%
Cymraeg Ail Iaith	250	285	-12.9%
Ieithoedd Modern Eraill	245	295	-16.9%
Gwyddorau Eraill	190	205	-7.3%
Pob Pwnc arall	60	165	-63.6%
Cyfanswm	**31,925**	**33,640**	**-5.1%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Mae tabl 17 yn cymharu cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2019 a haf 2018 yn ôl pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau Safon Uwch etifeddol, cymwysterau Safon Uwch diwygiedig ar gyfer Cymru a chymwysterau Safon Uwch diwygiedig ar gyfer Lloegr. Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer y mwyafrif o bynciau Safon Uwch yr haf hwn o gymharu â'r llynedd. Gwelwyd cynnydd mewn nifer fach o bynciau. Gwelwyd y cynnydd canrannol uchaf mewn cofrestriadau o gymharu â'r llynedd ar gyfer Seicoleg, sef 13.2%.

COFRESTRIADAU TYSTYSGRIF LEFEL 1/LEFEL 2

Tabl 18: Cofrestriadau Lefel 1/Lefel 2 yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc, haf 2019 o gymharu â haf 2018[9]

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2019						
Cyfanswm y cofrestriadau	30	30	3,020	70	20	3,170
Mathemateg Ychwanegol	*	15	2,840	25	*	2,880
Pynciau Eraill	30	15	180	45	20	290
2018						
Cyfanswm y cofrestriadau	25	110	3,355	85	15	3,590
Mathemateg Ychwanegol	15	95	3,065	30	0	3,205
Pynciau Eraill	10	15	290	55	15	385
2017						
Cyfanswm y cofrestriadau	20	60	3,225	80	10	3,395
Mathemateg Ychwanegol	5	20	2,525	20	*	2,575
Pynciau Eraill	15	40	700	65	5	820

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Dengys tabl 18 fod 3,170 o gofrestriadau ar gyfer cymwysterau Lefel 1/2 yn 2019, 11.7% yn uwch na nifer y cofrestriadau yn haf 2018 (3,590 o gofrestriadau).

Yn 2019, roedd cofrestriadau ar gyfer Mathemateg Ychwanegol yn cyfrif am 90.9% o gyfanswm y cofrestriadau Lefel 1/2 (2,880 yn 2019). Mae hyn yn cymharu â 89.2% yn 2018. Gostyngodd cofrestriadau Blwyddyn 11 yn y cymhwyster hwn 335 (10.0%) a gallai hyn gael ei ddylanwadu gan y gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg: Rhifedd yn gynnar.

[9] Ymhlith y pynciau eraill mae Pynciau Celf a Dylunio, Bioleg, Astudiaethau Busnes, Cemeg, Pynciau Clasurol, Saesneg, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Hanes, TGCh, Cerddoriaeth, Ieithoedd Modern Eraill, Ffiseg a Sbaeneg.

TYSTYSGRIF HER SGILIAU BAGLORIAETH CYMRU

Tabl 19: Cofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2019 a haf 2018

	Nifer yr Ymgeiswyr Haf 2019				Nifer yr Ymgeiswyr Haf 2018			
	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch	0	*	11,995	11,995	0	10	13,220	13,230
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (ôl-16)	0	0	0	0	0	50	10	65
Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol (ôl-16)	0	35	20	55	0	85	40	125
Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen	27,890	135	5	28,030	27,630	155	*	27,790
Cyfanswm	**27,890**	**170**	**12,020**	**40,080**	**27,630**	**300**	**13,275**	**41,205**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Dengys tabl 19 nifer y cofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn ôl grŵp blwyddyn ar gyfer haf 2019 a haf 2018.

- Bu lleihad o 1,125 yng nghyfanswm y cofrestriadau (2.7%).
- Roedd y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen yn cyfrif am 69.9% o'r holl gofrestriadau, o gymharu â 67.4% yr haf diwethaf. Roedd 28,030 o geisiadau, i fyny 240 (0.9%).
- Cafwyd 11,995 o gofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, sef lleihad o 1,230 (9.3%).

RHESTR TERMAU

Corff Dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

TGAU

Mae cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sail i astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio, ar ôl cymwysterau TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau. Dysgwyr 16-18 oed sydd fel arfer yn dilyn cwrs astudio dwy flynedd sy'n eu hastudio fel rheol. Maent yn cael eu defnyddio fel sail i dderbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei gymryd fel cymhwyster ar wahân. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at y Safon Uwch.

Tystysgrif Her Sgiliau

Y cymhwyster sy'n rhan ganolog o Fagloriaeth Cymru (gweler isod).
Mae angen i ddysgwyr gwblhau pedwar asesiad fel rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau:

- Prosiect unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfun sy'n cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau; mae hon yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer y coleg, prifysgol, cyflogaeth

a bywyd. Ynghyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae dysgwyr yn astudio detholiad o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn derbyn y Fagloriaeth.

Cyfnewid

Mae ysgolion a cholegau yn cofrestru myfyrwyr sy'n cwblhau cymhwyster ac sydd am hawlio eu gradd derfynol yn y sesiwn arholi honno.

Blwyddyn 10

Myfyrwyr sy'n 15 oed erbyn 31 Awst 2019.

Blwyddyn 11

Myfyrwyr sy'n 16 oed erbyn 31 Awst 2019.

Blwyddyn 12

Myfyrwyr sy'n 17 oed erbyn 31 Awst 2019.

Canolfan

Corff sy'n cyflawni asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw'r canolfannau hyn.

Llinol

Caiff cymwysterau TGAU llinol eu cynllunio fel bod yr holl waith asesu mewn pwnc yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y rhaglen ddysgu. - Mae hyn yn golygu bob tro y caiff disgybl ei gofrestru gan ei ysgol neu goleg i gael dyfarniad gradd, bydd angen iddo sefyll pob cydran asesu ar gyfer y cymhwyster (arholiadau, ac ar gyfer rhai pynciau, ffurfiau eraill ar asesiad dan reolaeth).

Unedol

Caiff cymwysterau unedol eu cynllunio fel y gall disgyblion gwblhau unedau asesu ar bwyntiau gwahanol yn ystod y cwrs, gyda gradd derfynol yn cael ei chyfnewid ar ddiwedd y rhaglen ddysgu ar ôl i'r disgybl gwblhau pob uned. Ar gyfer cymwysterau TGAU, mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau isafswm o'r asesiad er mwyn cael cymhwyster yn y gyfres lle byddant yn cyfnewid.

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017[10] a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007[11]. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol[12] ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer y cofrestriadau ar gyfer pob cymhwyster sydd ar gael yn haf 2019. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru mae'r cofrestriadau, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu nifer y cofrestriadau wedi'u dadansoddi yn ôl pwnc ac oedran y myfyrwyr yng Nghymru yn seiliedig ar grwpiau blwyddyn ysgol (blwyddyn 11 yw'r flwyddyn academaidd pan fydd myfyrwyr yn troi'n 16 oed).

Cyfyngiadau'r data

Mae gwallau posibl yn y wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a geir yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;

[10] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents
[11] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/pdfs/wsi_20171142_mi.pdf
[12] https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/

- Bod yn wyliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Mae data wedi'u casglu ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn, sef 17 Ebrill 2019 ar gyfer data cyfres haf 2019 yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, gall ysgolion barhau i wneud cofrestriadau hwyr hyd at ddyddiad yr arholiad, felly bydd cyfanswm nifer y cofrestriadau yn newid i gofrestriadau dros dro. O ganlyniad, mae teitl y datganiad hwn yn cyfeirio at gofrestriadau dros dro.

Cymariaethau

O 2017/18, cyflwynodd cyrff dyfarnu ddata ar gymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

Cwmpas Daearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 ar gyfer cyfres arholiadau haf 2019 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. **Nid** yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau na thystysgrifau Level 1/Lefel 2 a astudir y tu allan i Gymru.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, ni fydd data ar nifer y cofrestriadau fel arfer yn cael eu diwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu hadolygu i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data cofrestriadau i Cymwysterau Cymru ar gyfer yr holl gymwysterau rheoleiddiedig sydd wedi'u dosbarthu fel cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau neu dystysgrifau Lefel 1/Lefel 2. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer cofrestriadau eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir * yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, felly rydym yn disgwyl meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i lywio dealltwriaeth o batrymau cofrestriadau.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Data dros dro ar Gofrestriadau TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 Tachwedd 2018 ar gyfer Cymru. [13]
- Y datganiad 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion' [14] blynyddol, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- Cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yn Lloegr[15].

Gwybodaeth ddefnyddiol

Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau i ddod ar wefan Llywodraeth Cymru[16] ac ar ein gwefan ni[17]. Mae cofrestr QiW[18] yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

[13] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/an-annual-report-which-presents-provisional-data-on-november-2018-gcse-and-level-1level-2-certificates-entries-for-wales/
[14] https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2018
[15] https://www.gov.uk/government/statistics/entries-for-gcse-as-and-a-level-summer-2018-exam-series
[16] https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil/i-ddod
[17] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/upcoming-publications/
[18] https://www.qiw.wales/?lang=cy

Y diweddariad nesaf

Mai 2020 (dros dro).

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bost i statistics@qualificationswales.org

(h) (2019) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonell wreiddiol.